



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

Cyllideb Atodol

2022-2023

Nodyn Esboniadol

Mehfin 2022

llyw.cymru

Cynnwys

1. Rhagymadrodd	2
2. Dyraniadau Allweddol	3
3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2022-237	
4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion	16
5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion	18
6. Newidiadau i Gronfeydd wrth Gefn	20
7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	27
Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb	29
Atodiad 2 – Geirfa	31

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon i:
wag-en@mailuk.custhelp.com

1. Rhagymadrodd

- 1.1 Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2022-23, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r gyllideb derfynol ar gyfer 2022-23 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 8 Mawrth 2022.
- 1.2 Mae'r gyllideb atodol hon yn cysoni dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt, a throsglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt, ac yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.
- 1.3 Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.
- 1.4 Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Dyraniadau Allweddol

2.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r rhyfel yn Wcráin

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad clir i groesawu'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin. Mae Cymru'n Genedl Noddfa ac mae ein dull Cymru ar y Cyd wedi chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddarparu rhaglenni ailsefydlu eraill ar gyfer y rhai sy'n ffoi rhag Syria ac Affganistan.

Er mwyn creu llwybr diogel a chyflym i Gymru, rydym wedi gweithredu fel uwch-noddwr o dan y cynllun Cartrefi i Wcráin ac wedi ymrwymo i groesawu 1000 o unigolion cychwynnol i Gymru drwy'r llwybr hwn.

Hyd at 9 Mehefin, roeddem eisoes wedi gweld bron 600 o bobl yn cyrraedd y DU o dan lwybr Uwch-Noddwr Llywodraeth Cymru ac mae hynny'n parhau i gynyddu'n sylweddol bob dydd.

Drwy'r gyllideb atodol hon, mae **£20m** wedi'i ddyrannu i gefnogi ein hymateb i'r argyfwng yn Wcráin.

Rydym wedi sefydlu, mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol ac amrywiaeth o sefydliadau, rwydwaith o Ganolfannau Croeso ledled Cymru. Mae'r rhwydwaith hwnnw'n parhau i dyfu ac rydym yn defnyddio llety dros dro wrth inni ystytho ein cynnig o lety a chymorth i ymateb i'r galw o du'r rhai sy'n cyrraedd. Ar yr un pryd, rydym yn gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol i helpu pobl i symud i lety cynaliadwy fel cam nesaf.

Mae Canolfan Gyswllt genedlaethol a llinell gymorth a rhwydwaith o Hybiau Cyrraedd hefyd wedi'u sefydlu i gefnogi pobl sy'n cyrraedd. Mae gan y Ganolfan Gyswllt rôl gyfan gwbl hanfodol yn y gwaith o sefydlu cynlluniau teithio, hwyluso llif pobl i mewn i Gymru a sicrhau bod pawb yn cael eu paru â llety a chymorth priodol.

Rydym hefyd yn datblygu Plattfform Data Cartrefi i Wcráin a fydd yn cefnogi'r gofyniad sylweddol am rannu data oddi wrth y Swyddfa Gartref i Lywodraeth Cymru ac ymlaen i Ganolfannau Croeso, y Ganolfan Gyswllt, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Bydd yn ein galluogi i gynnal darlun cenedlaethol, yn cefnogi adroddiadau a hawliadau ariannol ac yn hwyluso'r broses o drosglwyddo pobl yn ddiogel rhwng Awdurdodau Lleol.

2.2 Gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS16) – Lesoedd

Mae cyllideb atodol gyntaf 2022-23 yn gweithredu effeithiau cyllidebol y newidiadau i'r ffordd y mae trefniadau lesio'n cael eu hadlewyrchu yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn dilyn gweithredu IFRS 16.

Mae IFRS 16 yn safon gyfrifyddu newydd sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu lesioedd. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o lesioedd, ac eithrio'r rhai ar gyfer eitemau gwerth isel neu am lai na blwyddyn, gael eu trin yn y datganiadau ariannol yn gymaradwy ag asedau a berchnogir.

Mabwysiadwyd y safon newydd gan y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022. Newidiodd y driniaeth gyllidebu ar gyfer lesioedd yn unol â'r cyfrifyddu o'r dyddiad hwn, gan effeithio ar ofynion ein cyllideb.

Mae IFRS 16 yn dod â'r mwyafrif o lesioedd i'r fantolen. Ar gyfer y lesioedd hynny, mae tair effaith ar gyllidebau adnoddau (RDEL) a chyfalaf (CDEL):

- gwariant cyfalaf (CDEL) ar ddechrau'r les, ar gyfer yr ased a gydnabyddir ar y fantolen;
- dibrisiant wedi'i neilltuo (RDEL anghyllidol), oherwydd dibrisiant ar yr ased a lesiwyd dros oes y les;
- gwariant adnoddau nad yw'n cael ei neilltuo (RDEL cyllidol) ar gyfer y llog a gafwyd dros oes y les.

Ceir effeithiau bach ar gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), sef cyfalaf a refeniw mewn perthynas â lesioedd 'hedyn pupur' (h.y. lesioedd gyda lefel enwol o daliad les) a darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau.

Dim ond i lesioedd newydd a lesioedd wedi'u hadnewyddu o 2022-23 y mae'r tâl a godir ar CDEL yn gymwys. Bydd dibrisiant a llog yn gymwys i bob les a asesir o dan IFRS16 o 2022-23.

Mae goblygiadau aiddosbarthu'r gyllideb yn sgil mabwysiadu IFRS16 ar gyfer cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol, h.y. 2022-23 i 2024-25, yn gyfrifoldeb i Drysorlys EM. Mae setliad cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn dilyn Prif Amcangyfrifon y DU yn adlewyrchu'r aiddosbarthu ar gyfer gweithredu IFRS16. Gan fod y setliad blaenorol yn cynnwys RDEL ar gyfer y taliadau lesioedd ar lesioedd presennol, mae rhan o'r aiddosbarthu yn ostyngiad i gyllideb RDEL (cyllidol) gan nad oes angen hyn mwyach. Bydd arian parod yn parhau i fod ar gael i wneud taliadau lesioedd, ond ni fydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu mwyach drwy'r gyllideb RDEL (cyllidol).

Nid yw gweithredu IFRS16 yn effeithio ar y pŵer gwario presennol. Mae'r addasiadau yn y gyllideb atodol hon yn adlewyrchu'r newidiadau i'r ffordd y

mae'n ofynnol bellach adrodd ar drefniadau lesio o fewn y cynlluniau presennol mewn cyllidebau.

Mae gweithredu IFRS 16 hefyd yn gymwys i Gomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru. Lle bo angen, mae pob un o'r cyrff hynny wedi darparu Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r newidiadau y mae eu hangen. Mae'r newidiadau hynny bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb atodol hon.

Yr addasiad cyffredinol i gyllideb Cymru o ganlyniad i weithredu IFRS16 yw:

- Gostyngiad o £80.241m i RDEL (cyllidol);
- Cynnydd o £83.810m i RDEL (anghyllidol);
- Cynnydd o £284.289m i CDEL (cyfalaf).

Mae manylion y MEGs yr effeithir arnynt i'w gweld yn nhabl 6.1 o Bennod 6.

Mae Tabl 2 yn nodi'r addasiadau y mae eu hangen i gyllideb 2022/23.

Tabl 2 – Newidiadau i Gyllidebau i adlewyrchu gofynion IFRS16

Dyraniadau MEG:	DEL			AME	
	Refeniw (cyllidol)	Refeniw (anghyllidol)	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf
	£m	£m	£m	£m	£m
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	-34.554	34.144	85.600	1.666	0.440
Cyllid a Llywodraeth Leol	0	0	0	0	0
Y Gymraeg ac Addysg	-0.186	0.210	0.548	0	0
Newid Hinsawdd	-39.588	40.652	198.090	0	0
Yr Economi	-2.308	3.229	0.035	0	0
Materion Gwledig	-0.022	0	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	-0.103	0.103	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-1.140	1.577	0	0	0
CYFANSWM	-77.901	79.915	284.273	1.666	0.440

Cyrff a Ariennir yn	DEL			AME	
	Refeniw	Refeniw	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf

Uniongyrchol	(cyllidol) £m	(anghyllidol) £m	£m	£m	£m
Ombwdsmon					
Gwasanaethau	-0.190	0.201	0	0	0.015
Cyhoeddus Cymru					
Comisiwn y Senedd	-1.732	3.274	0.016	0	0
Archwilio Cymru	-0.418	0.420	0	0	0
CYFANSWM	-2.340	3.895	0.016	0	0.015
CYFANSWM	-80.241	83.810	284.289	1.666	0.455

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2022-23

- 3.1** Mae Tablau 3.1 i 3.4 yn amlinellu effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl y Prif Grwpiau Gwariant (MEG).

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO ADNODDAU			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyllidol	15,245,306	27,780	15,273,086
Anghyllidol	1,519,960	262,771	1,782,731
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	34,000	0	34,000
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyllidol	28,063	0	28,063
Anghyllidol	191,034	1,666	192,700
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Ardrethi Annomestig	1,030,000	0	1,030,000
Cyfradd Treth Incwm Cymru	2,477,747	0	2,477,747
Treth Trafodiadau Tir	380,542	0	380,542
Treth Gwarediadau Tirlenwi	35,188	0	35,188
Prif ad-daliad o'r benthyciad	-6,164	3,688	-2,476
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	20,935,676	295,905	21,231,581
CYLLIDO CYFALAF			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyffredinol	2,377,963	339,307	2,717,270
Trafodiadau Ariannol	265,026	0	265,026
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyfalaf	1,051,366	440	1,051,806
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Benthyca	150,000	0	150,000
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	3,844,355	339,747	4,184,102
CYFANSWM CYLLIDO CYMRU	24,780,031	635,652	25,415,683

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd		
	Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,319,038	125,653	10,444,691
Cyllid a Llywodraeth Leol	5,681,732	66,922	5,748,654
Y Gymraeg ac Addysg	3,476,108	9,121	3,485,229
Newid Hinsawdd	2,911,478	195,092	3,106,570
Yr Economi	530,738	-6,501	524,237
Materion Gwledig	393,162	-91	393,071
Cyfiawnder Cymdeithasol	274,144	2,208	276,352
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	356,710	1,970	358,680
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	23,943,110	394,374	24,337,484
Adnoddau heb eu Dyrannu	Adnoddau Cyllidol	52,162	152,305
	Adnoddau Anghyllidol	178,832	699,206
Cyfalaf heb ei Ddyrannu	Trafodiadau Ariannol	1,020	214,104
Gor-ddyraniad Cyfalaf Cyffredinol	-75,715	7,487	-68,228
Comisiwn y Senedd ^{Nodyn 1}	62,942	2,061	65,003
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ^{Nodyn 2}	5,337	51	5,388
Swyddfa Archwilio Cymru ^{Nodyn 3}	8,608	-354	8,254
Y Comisiwn Etholiadol	1,400	19	1,419
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	748	0	748
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU	24,780,031	635,652	25,415,683

Nodiadau

1. Cyflwynodd Comisiwn y Senedd gyllideb atodol ar gyfer 2022-23 i'r Cyfarfod Llawn ym mis Mai 2022. Nododd ostyngiad o £1,355k yn ei adnoddau cyllidol, cynnydd o £3,400k yn ei adnoddau anghyllidol a chynnydd o £16k yn ei gyfalaf cyffredinol.

2. Cyflwynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyllideb atodol ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor Cyllid ar 20 Ebrill 2022. Nododd ostyngiad o £153k yn ei adnoddau cyllidol a chynnydd o £204k yn ei adnoddau anghyllidol.

3. Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru gyllideb atodol ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor Cyllid ar 9 Mehefin 2022. Nododd ostyngiad o £774k yn ei adnoddau cyllidol a chynnydd o £420k yn ei adnoddau anghyllidol.

Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	CYLLIDOL			ANGHYLLIDOL		
	Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022	Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,535,351	3,953	9,539,304	257,956	34,144	292,100
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,485,271	19,411	4,504,682	421	0	421
Y Gymraeg ac Addysg	1,754,758	8,363	1,763,121	459,895	210	460,105
Newid Hinsawdd	927,391	-43,650	883,741	239,121	40,652	279,773
Yr Economi	390,823	-8,915	381,908	11,598	3,229	14,827
Materion Gwledig	345,145	-91	345,054	10,817	0	10,817
Cyfiawnder Cymdeithasol	227,427	2,105	229,532	158	103	261
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	326,490	393	326,883	17,020	1,577	18,597
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	17,992,656	-18,431	17,974,225	996,986	79,915	1,076,901

Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022	Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	339,311	85,450	424,761	0	0	0
Cyllid a Llywodraeth Leol	166,040	47,531	213,551	0	-20	-20
Y Gymraeg ac Addysg	355,300	548	355,848	1,093	0	1,093
Newid Hinsawdd	1,575,511	198,090	1,773,601	69,062	0	69,062
Yr Economi	102,501	185	102,686	-19,709	-1,000	-20,709
Materion Gwledig	37,200	0	37,200	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	17,000	0	17,000	1,496	0	1,496
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	10,000	0	10,000	0	0	0
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	2,602,863	331,804	2,934,667	51,942	-1,020	50,922

- 3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn ym mhennod 6.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

- 3.3** Cafwyd cynnydd net o £27,780k i'r llinell sylfaen Adnoddau Cyllidol gan gynnwys:
- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £63,907k a chan gynnwys:
 - £26,825k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yn Natganiad y DU ar gyfer y Gwanwyn 2022;
 - £37,082k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2022;
 - Trosglwyddiad i mewn o £39,264k o Drysorlys EM mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - Trosglwyddiad i mewn o £3,502k o Drysorlys EM mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
 - Trosglwyddiad i mewn o £636k mewn perthynas â seibergadernid;
 - Trosglwyddiad i mewn o £493k o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir;
 - Trosglwyddiad i mewn o £96k o CThEM mewn perthynas ag amodoldeb treth Awdurdodau Lleol;
 - Trosglwyddiad o £80,004k allan mewn perthynas â gweithredu IFRS16;
 - Trosglwyddiad o £100k allan i Drysorlys EM mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig;
 - Trosglwyddiad o £14k allan i Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru at 'Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2022'.

Adnoddau Anghyllidol

3.4 Ers y Gyllideb Derfynol, mae llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi cynyddu £262,771k, gan gynnwys:

- Cynnydd o £62,530k i'r llinell sylfaen ym mis Chwefror 2022 i gysoni'r gyllideb â 2021-22;
- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £115,066k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2022;
- Trosglwyddiad i mewn o £85,175k mewn perthynas â gweithredu IFRS16.

Cyllido Datganoledig Cymru

3.5 Nid oes unrhyw newidiadau i'r incwm treth datganoledig yn y gyllideb atodol hon – mae'r rhagolygon yn parhau i adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol.

Mae'r swm sy'n ofynnol i ad-dalu prif fenthyciadau wedi gostwng ers y Gyllideb Derfynol gan na ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru ei chyfleuster benthyca cyfalaf yn 2021-22. Mae hyn yn golygu bod cynnydd o £3,688k yn y cyllid sydd ar gael.

Cyfalaf Cyffredinol

3.6 Cafwyd cynnydd o £339,307k yn llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol sydd wedi dod i law o ganlyniad i'r Prif Amcangyfrifon ym mis Mai 2022 ac yn cynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £7,487k;
- Cynnydd mewn ychwanegiadau nad ydynt yn rhai Barnett o £47,531k mewn perthynas â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf;
- Cynnydd o £284,289k mewn perthynas â gweithredu IFRS16.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

3.7 Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r llinell sylfaen sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol ers y Gyllideb Derfynol.

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2022-23 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM DYRANIAD MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,539,304	292,100	9,831,404	424,761	0	424,761	188,086	440	188,526	10,444,691
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,504,682	421	4,505,103	213,571	-20	213,551	1,030,000	0	1,030,000	5,748,654
Y Gymraeg ac Addysg	1,763,121	460,105	2,223,226	355,848	1,093	356,941	-146,304	1,051,366	905,062	3,485,229
Newid Hinsawdd	883,741	279,773	1,163,514	1,773,601	69,062	1,842,663	100,393	0	100,393	3,106,570
Yr Economi	381,908	14,827	396,735	102,686	-20,709	81,977	45,525	0	45,525	524,237
Materion Gwledig	345,054	10,817	355,871	37,200	0	37,200	0	0	0	393,071
Cyfiawnder Cymdeithasol	229,532	261	229,793	17,000	1,496	18,496	28,063	0	28,063	276,352
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	326,883	18,597	345,480	10,000	0	10,000	3,200	0	3,200	358,680
CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs LLYWODRAETH CYMRU	17,974,225	1,076,901	19,051,126	2,934,667	50,922	2,985,589	1,248,963	1,051,806	2,300,769	24,337,484

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

4.1 Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng portffolios y Gweinidogion yn y Gyllideb Atodol hon yn dod i gyfanswm o £14,561k. Mae effaith net y trosglwyddiadau ar bob MEG wedi'i chrynhai yn y tabl isod:

	Bron yn arian parod			Cyfalaf		
	I	O	Trosglwyddiadau net	I	O	Trosglwyddiadau net
H&SS	0	-1,250	-1,250	0	-150	-150
F&LG	1,795	-419	1,376	0	0	0
E&WL	10,301	-1,752	8,549	0	0	0
CC	0	-4,062	-4,062	0	0	0
Yr Economi	63	-6,670	-6,607	150	0	150
RA	0	-69	-69	0	0	0
SJ	1,241	-89	1,152	0	0	0
CS&A	1,011	-100	911	0	0	0
	14,411	-14,411	0	150	-150	0

4.2 Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1m fel a ganlyn:

Adnoddau Cyllidol

4.3 Tri throsglwyddiad yn dod i gyfanswm o £6,241k o MEG yr Economi i MEG y Gymraeg ac Addysg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £3,151k o'r BEL Prentisiaethau i BEL Gwariant Rhaglen Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer Prentisiaethau Gradd;
- £3,090k o BEL Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warrant Pobl Ifanc i BEL Darpariaeth Ôl-16 gan gynnwys:
 - £1,750k mewn perthynas â Chyfrifon Dysgu Personol;
 - £1,340k mewn perthynas â Biwroau Cyflogaeth.

4.4 Trosglwyddiad o £3,700k o'r BEL Digartrefedd o fewn y MEG Newid Hinsawdd i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuentid o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â Digartrefedd Ieuentid.

- 4.5** Trosglwyddiad o £1,600k o'r BEL Cymorth Safonau Ysgolion o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg i BEL Gwariant Rhaglen Estyn o fewn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol er mwyn darparu cyllid ychwanegol i Estyn.

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

5.1 Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng sawl BEL o fewn yr un portffolios ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Tablau BEL cyhoeddedig. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEG unigol. Nodir isod y MEGs lle mae'r trosglwyddiadau hyn yn fwy nag £1m:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.2 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £51,138k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gryno, mae'r trosglwyddiadau hyn:

- yn alinio'r dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol yn gywir;
- yn alinio dyraniadau i ariannu ymrwymadau penodol.

Y Gymraeg ac Addysg

5.3 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £2,836k wedi digwydd rhwng BELs o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg. Mae'r un mwyaf sylweddol o'r rhain yn ymwneud â:

- £1,600k a drosglwyddwyd o BEL Gwariant Rhaglen CCAUC i'r BEL Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol mewn perthynas â 'Cymru Fyd-eang III'.

Newid Hinsawdd

5.4 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £3,156k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £4,010k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Newid Hinsawdd, a dyma'r rhai mwyaf sylweddol:

- £2,439k o adnoddau a drosglwyddwyd o'r BEL Digartrefedd i'r BEL Grant Cymorth Tai ar ôl adolygiad mewnol o'r Grant Atal Digartrefedd ac aliniad â'r Grant Cymorth Tai;

- £4,010k o gyfalaf a drosglwyddwyd o'r BEL Coedwigaeth ar gyfer ymrwymadau o'r Rhaglen Lywodraethu, a throsglwyddwyd £2,900k o'r ffigur hwnnw i'r BEL Tirweddau a Hamdden Awyr Agored.

Yr Economi

5.5 Mae tri throsglwyddiad adnoddau gwerth cyfanswm o £11,135k wedi digwydd rhwng BELs o fewn MEG yr Economi. Mae pob un yn ymwneud â'r BEL Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warrant Pobl Ifanc a dyma'r manylion:

- £8,000k i'r BEL Cymunedau am Waith i alluogi'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy i gynnal ei lefel 2021-22 heb leihau capasiti'r rhaglen ac i osgoi'r posibilrwydd o golli swyddi;
- £2,000k i BEL Busnes Cymru i gefnogi pobl ifanc o dan 25 mlwydd oed i ddysgu am fusnes a chymryd camau gweithgar tuag at fod yn hunangyflogedig;
- £1,135k o'r BEL Prentisiaethau mewn perthynas â'r Prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

5.6 Mae un throsglwyddiad adnoddau gwerth £1,263k a thri throsglwyddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £5,855k wedi digwydd rhwng BELs yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Dyma'r manylion:

- £1,236k o adnoddau a drosglwyddwyd o BEL Costau Pontio Canolog yr UE i'r BEL Costau Staff ar gyfer cost y Bartneriaeth Gymdeithasol a'r Tîm Polisi Masnach;
- £5,855k o'r BEL Gwariant Gweinyddu Cyffredinol er mwyn cydweddu cyllidebau â chyfrifoldebau dirprwyedig, gan gynnwys:
 - £3,255k i'r BEL Costau TG;
 - £1,500k i'r BEL Galluogi Llywodraeth;
 - £1,100k i'r BEL Ymchwil Ganolog.

6. Newidiadau i Gronfeydd wrth Gefn

6.1 Mae'r gyllideb hon yn unioni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt. Mae rhestr gyflawn i'w chael yn nhabl 6.1.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.2 Gwnaed cyfanswm o £63,864k o ddyraniadau o'r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys £2,415k mewn perthynas â gweithredu IFRS16, a'r dyraniadau MEG canlynol:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £39,264k i'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - £493k i BEL Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau mewn perthynas â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir.
- Cyllid a Llywodraeth Leol:
 - £20,000k i'r BEL Cymorth Ariannol Brys mewn perthynas â'r pecyn cymorth i Wcráin.
- Cyfiawnder Cymdeithasol:
 - £1,056k i'r BEL Gwasanaethau Cyngori mewn perthynas â chyngor ar ddyledion.
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:
 - £636k i'r BEL Seibergadernid.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.3 Gwnaed cyfanswm o £82,295k o drosglwyddiadau i'r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £80,316k mewn perthynas â gweithredu IFRS16;
- £1,865k o'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r gostyngiad yng nghost benthyg;

- £114k o sawl MEG ar gyfer costau trosglwyddiadau i Adrannau Llywodraeth eraill a weithredwyd adeg y Prif Amcangyfrifon.

Mae manylion llawn y trosglwyddiadau hyn ar gael yn nhabl 6.1 isod.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

6.4 Gwnaed dyraniadau gwerth cyfanswm o £79,915k, o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae pob un o'r dyraniadau hyn yn ymwneud â gweithredu IFRS16.

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

6.5 Gwnaed dyraniadau gwerth cyfanswm o £331,804k, o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon, sef:

- £284,273k mewn perthynas â gweithredu IFRS16;
- £47,531k i'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Bargeinion Twf;
 - £22,000k mewn perthynas â Dinas Caerdydd;
 - £13,086k mewn perthynas â Bae Abertawe;
 - £12,445k mewn perthynas â Gogledd Cymru.

Dyraniadau i'r Gronfa Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

6.6 Gwnaed dau drosglwyddiad yn ôl i'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon:

- £1,000k o'r BEL Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon ym MEG yr Economi, yn ymwneud ag ad-dalu benthyciadau;
- £20k o'r BEL Ad-dalu Buddsoddi i Arbed yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol, yn ymwneud â'r Prosiect Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae tabl 6.1 isod yn adlewyrchu'r holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn.

Tabl 6.1 - Newidiadau i Gronfeydd wrth gefn 2022-23 ers y Gyllideb Derfynol a'r Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon

	£000oedd						
	Adnoddau Cyllidol	Adnoddau Anghyllidol	Cyfanswm yr Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm cyfalaf	Cyfanswm
Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb Derfynol	100,143	520,374	620,517	-75,715	213,084	137,369	757,886
Trosglwyddiadau a symiau canlyniadol ers y Gyllideb Derfynol	27,780	262,771	290,551	339,307	0	339,307	629,858
Gostyngiad yn y prif ad-daliad o'r benthyciad	3,688	0	3,688	0	0	0	3,688
Cronfeydd Diwygiedig	131,611	783,145	914,756	263,592	213,084	476,676	1,391,432
Newidiadau:							
IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL							
IFRS 16:	-34,554	34,144	-410	85,600	0	85,600	85,190
Dyraniadau Craidd y GIG	-29,860	31,691	1,831	85,600	0	85,600	87,431
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	-1,920	1,900	-20	0	0	0	-20
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	-305	300	-5	0	0	0	-5
Iechyd Cyhoeddus Cymru	-2,215	0	-2,215	0	0	0	-2,215
Gofal Cymdeithasol Cymru	-254	253	-1	0	0	0	-1
Eraill:	39,757	0	39,757	0	0	0	39,757
Dyraniadau Craidd y GIG – Blaenswm y Gordal Iechyd Mewnfudo o'r Swyddfa Gartref	39,264	0	39,264	0	0	0	39,264

Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau - Cyllid y Gronfa Canlyniadau a Rennir o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder	493	0	493	0	0	0	493
IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL	5,203	34,144	39,347	85,600	0	85,600	124,947
CYLLID A LLYWODRAETH LEOL							
Eraill:	18,035	0	18,035	47,531	-20	47,511	65,546
Cymorth Ariannol Brys – Pecyn Cymorth i Wcráin	20,000	0	20,000	0	0	0	20,000
Trethi Datganoledig - Costau OBR yn darparu rhagolygon treth annibynnol	-100	0	-100	0	0	0	-100
Cost Benthycia – Gostyngiad yng nghost benthycia	-1,865	0	-1,865	0	0	0	-1,865
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf – Bargaen Twf Gogledd Cymru	0	0	0	12,445	0	12,445	12,445
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf – Bargaen Twf Bae Abertawe	0	0	0	13,086	0	13,086	13,086
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf – Bargaen Twf Dinas Caerdydd	0	0	0	22,000	0	22,000	22,000
Buddsoddi i Arbed – Ad-daliad	0	0	0	0	-20	-20	-20
CYLLID A LLYWODRAETH LEOL	18,035	0	18,035	47,531	-20	47,511	65,546
Y GYMRAEG AC ADDYSG							
IFRS 16:	-186	210	24	548	0	548	572
Cymwysterau Cymru	-92	114	22	548	0	548	570
Comisiynydd y Gymraeg	-94	96	2	0	0	0	2
Y GYMRAEG AC ADDYSG	-186	210	24	548	0	548	572

NEWID HINSAWDD							
IFRS 16:	-39,588	40,652	1,064	198,090	0	198,090	199,154
Trafnidiaeth Cymru	-39,588	40,652	1,064	198,090	0	198,090	199,154
NEWID HINSAWDD	-39,588	40,652	1,064	198,090	0	198,090	199,154
YR ECONOMI							
IFRS 16:	-2,308	3,229	921	35	0	35	956
Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol	274	269	-5	0	0	0	-5
Seilwaith Eiddo	-1,146	2,168	1,022	0	0	0	1,022
Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant Pobl Ifanc	-664	550	-114	35	0	35	-79
Cyngor Celfyddydau Cymru	-123	141	18	0	0	0	18
Cadw	-2	2	0	0	0	0	0
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	-95	95	0	0	0	0	0
Chwaraeon Cymru	-4	4	0	0	0	0	0
Erill:	0	0	0	0	-1,000	-1,000	-1,000
Chwaraeon Cymru – Benthyciad addaladwy URC	0	0	0	0	-1,000	-1,000	-1,000
YR ECONOMI	-2,308	3,229	921	35	-1,000	-965	-44
MATERION GWLEDIG							
IFRS 16:	-22	0	-22	0	0	0	-22
Dileu TB	-22	0	-22	0	0	0	-22
MATERION GWLEDIG	-22	0	-22	0	0	0	-22

CYFIAWNDER CYMDEITHASOL							
IFRS 16:	-103	103	0	0	0	0	0
Y Comisiynydd Pobl Hŷn	-69	69	0	0	0	0	0
Y Comisiynydd Plant	-34	34	0	0	0	0	0
Eraill:	1,056	0	1,056	0	0	0	1,056
Gwasanaethau Cynghori – Cyllid Cyngor ar Ddyled	1,056	0	1,056	0	0	0	1,056
CYFIAWNDER CYMDEITHASOL	953	103	1,056	0	0	0	1,056
GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU							
IFRS 16:	-1,140	1,577	437	0	0	0	437
Gwariant Gweinyddu Cyffredinol	-1,123	1,577	454	0	0	0	454
Cysylltiadau Rhyngwladol	-17	0	-17	0	0	0	-17
Eraill:	622	0	622	0	0	0	622
Gwariant Gweinyddu Cyffredinol – Cyfraniad i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer 'Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2022'	-14	0	-14	0	0	0	-14
Seibergadernid – Cyllid Seibergadernid o'r Asiantaeth Cudd-wybodaeth Diogelwch	636	0	636	0	0	0	636
GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU	-518	1,577	1,059	0	0	0	1,059
NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN							
Comisiwn y Senedd	-1,355	3,400	2,045	16	0	16	2,061
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-153	204	51	0	0	0	51
Swyddfa Archwilio Cymru	-774	420	-354	0	0	0	-354

Y Comisiwn Etholiadol – Addasiad i adlewyrchu'r union gyllid a nodir yng Nghyllideb y Comisiynau Etholiadol ar gyfer 2022-23	19	0	19	0	0	0	19
NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN	-2,263	4,024	1,761	16	0	16	1,777
Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon	152,305	699,206	851,511	-68,228	214,104	145,876	997,387

7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

- 7.1** Roedd y cyllidebau AME y manylir arnynt yn y Gyllideb Derfynol 2022-23 yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf a ddarparwyd i Drysorlys EM.
- 7.2** Mae'r newidiadau a adlewyrchir yn y Gyllideb Atodol gyntaf yn ymwneud yn unig ag effaith gweithredu IFRS16 fel yr amlinellir ym mhennod 2.

Mae tabl 7.1 isod yn nodi'r cyllidebau AME cyfredol.

Tabl 7.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	ADNODDAU			CYFALAF		
	Cynlluniau Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022	Cynlluniau Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Mehefin 2022
Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol	186,420	1,666	188,086	0	440	440
Cyllid a Llywodraeth Leol	1,030,000	0	1,030,000	0	0	0
Y Gymraeg ac Addysg	-146,304	0	-146,304	1,051,366	0	1,051,366
Newid Hinsawdd	100,393	0	100,393	0	0	0
Yr Economi	45,525	0	45,525	0	0	0
Materion Gwledig	0	0	0	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	28,063	0	28,063	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	3,200	0	3,200	0	0	0
Cyfanswm Dyraniad i Lywodraeth Cymru	1,247,297	1,666	1,248,963	1,051,366	440	1,051,806

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy'n nodi'r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2022-23 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys Ei Mawrhydi ac yn cyd-fynd â Thablau'r BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn sgorio fel rhan o'r 'Adnoddau sy'n Ofynnol' gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

CYLLIDEB ATODOL 2022-23

£000oedd

	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyllid a Llywodraeth Leol	Y Gymraeg ac Addysg	Newid Hinsawdd	Yr Economi	Materion Gwledig	Cyfiawnder Cymdeithasol	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	CYFANSWM
Adnoddau	9,831,404	4,505,103	2,223,226	1,163,514	396,735	355,871	229,793	345,480	19,051,126
Cyfalaf	424,761	213,551	356,941	1,842,663	81,977	37,200	18,496	10,000	2,985,589
AME Adnoddau	188,526	1,030,000	-146,304	100,393	45,525	0	28,063	3,200	1,249,403
AME Cyfalaf	0	0	1,051,366	0	0	0	0	0	1,051,366
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR	10,444,691	5,748,654	3,485,229	3,106,570	524,237	393,071	276,352	358,680	24,337,484
Cysoni ag Adnoddau									
Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	-229	-200	-920	-10,000	-20,566				-31,915
Benthyca â Chymorth		-88,800							-88,800
Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol	-906								-906
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu)		-1,035,172							-1,035,172
Taliadau Llog ar Fenthyciadau		-2,360							-2,360
Menter Cyllid Preifat				-9,786					-9,786
ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT	10,443,556	4,622,122	3,484,309	3,086,784	503,671	393,071	276,352	358,680	23,168,545

Atodiad 2 – Geirfa

Cam gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.
Cwmpasoedd	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynigion y Gyllideb Flynyddol a'r Gyllideb Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.
Cynnig y Gyllideb	Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.
Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
Cyfalaf	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw.

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Terfyn y gyllideb amflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant.
Dibrisiant	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y taliadau a godir yn uniongyrchol mae taliad cydnabyddiaeth y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
Trafodiadau Ariannol	Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys EM.
DEL Adnoddau Cyllidol (y cyfeirir ato weithiau fel referniw)	Mae Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail cronïadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau.
Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir 8 MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Y Gymraeg ac Addysg; Newid Hinsawdd; Yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithasol a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
DEL Adnoddau Anghyllidol (y cyfeirir ato weithiau fel referniw 'nad ydyw'n arian parod')	Mae'r gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.
Derbyniadau	Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

Cyllidebu adnoddau	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.
Adolygiad o Wariant	O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys Ei Mawrhydi yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.